# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **17 Ionawr 2023** |
| **Lleoliad:** | **Siambr y Cyngor / O bell drwy fideo gynadledda** |
| **Teitl:** | **Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion 2022-2027 gan gynnwys yr Amcanion Llesiant Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Darparu'r Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-2027, gan gynnwys yr Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd, i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Bolisi a Pherfformiad** |

## Cefndir

Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022 roedd angen Strategaeth Gorfforaethol newydd i nodi Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd y Cyngor a'r dyheadau ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Cafodd y Strategaeth Gorfforaethol newydd a'r Amcanion Llesiant eu datblygu rhwng Mehefin a Medi 2022 a chawsant eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Tachwedd 2022. Mae'r Strategaeth ynghlwm yn Atodiad 1 ac mae crynodeb o'r Amcanion Llesiant Corfforaethol i'w cael ar dudalen 9.

## Y Sefyllfa Bresennol

Diben y Strategaeth Gorfforaethol yw dangos sut fydd y Cyngor yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol trigolion a chymunedau Ceredigion a hefyd cyfrannu i'r eithaf i'r saith Amcan Llesiant Cenedlaethol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yr Amcanion Llesiant Corfforaethol yw:

- Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
- Creu cymunedau gofalgar ac iach
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu
- Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd

Maen nhw wedi cael eu nodi drwy ddadansoddi tystiolaeth yn helaeth ac ymgysylltu â'r trigolion, gan gynnwys dyheadau'r weinyddiaeth wleidyddol newydd, Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion a'r ymgynghoriad cyhoeddus a fu ar y strategaeth ddrafft yn ystod Medi/Hydref 2022.

Hefyd mae'r amcanion wedi'u nodi drwy weledigaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd hyn yn cynnwys nodi sut y gallem wneud y cyfraniad mwyaf i'r amcanion llesiant cenedlaethol a hefyd sicrhau ein bod yn defnyddio'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy i ddiwallu anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Bydd y Strategaeth Gorfforaethol yn cael ei rhoi ar waith dros y pum mlynedd nesaf a bydd y cynnydd yn cael ei adolygu'n flynyddol yn Adroddiad Hunanasesu'r Cyngor a gyhoeddir ym mis Tachwedd bob blwyddyn.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Derbyn y Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2022-2027 gan gynnwys yr Amcanion Llesiant Corfforaethol** |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | **I sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael gwybod am y Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2022-2027 a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd** |
| **Atodiadau:** | Atodiad 1 – Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd) |
| **Swyddog Adrodd:** | Rob Starr (Tîm Perfformiad ac Ymchwil) |
| **Dyddiad:** | 1 Rhagfyr 2022 |